# Cofnodion Cyfarfod CCG 28.4.23

**Neuadd Cymuned Glantwymyn**

**19:494: Presennol**: Gareth Wyn Jones (Cadeirydd), Deryck Lewis, Gwen Lloyd, William Owen, Gwenfair Rhys-Davies, Aled Griffiths, Rhodri Wigley, Huw Williams, Dafydd Evans, Bedwyr Fychan, Iwan Jones, Sandra Evans (Clerc)

**19:495: Ymddiheuriadau**: Glyn Jones, Paul Hughes, Gareth Owen, Aeron Pughe

**19:496: Datganiadau o ddiddordeb**: Dim

**19:497: Cyflwyno a derbyn cofnodion Chwefror**

Nodwyd mai Osian Jones fydd yn gosod y diffibs nid Osian Lewis.

Nodwyd y dylid dweud mai cyfraniad elusennol oedd £5000 i Draed Bêch Twymyn. Awgrymwyd y dylid nodi bod pleidlais wedi cael ei chynnal. Er nad oedd y bleidlais yn unfrydol gydag un yn gwrthwynebu taliad mor fawr er ei fod e/ei bod hi'n cefnogi'r achos mewn egwyddor, a dau yn ymatal. Roedd y mwyafrif y sawl a bleidleisiodd o blaid.

Bydd y Clerc yn ceisio cyngor Un Llais Cymru am faint y gellir ei roi a manylder cofnodi'r broses bleidleisio.

Cynigwyd bod hyn yn gywir fel arall gan William Owen ac fe'i heiliwyd gan Deryck Lewis.

**19:498: Adroddiad y Clerc**: Mae'r cabinets diffibrilwyr wedi cyrraedd. Diolch i Mrs Nora Wigley am roi lle i ddiffib Darowen. Mae Rhodri Wigley wedi cychwyn atgyweirio wal eglwys Llanwrin.

**19:499:** Cynllunio- Dim

**19:500: Materion Ariannol ac eitemau i'w talu:**

1. Materion ariannol ac eitemau i'w talu
    - Derbyniwyd £3685.00 (Praesept)
    - Cyfrif Whittingham Riddell – Mae'r cyfrif yn £111.00 yn gredyd
    - Cyflog y Clerc Mawrth mis 12 £352.80
    - PAYE **(£239.40)** ac Yswiriant Gwladol (£0.00) 06 Ionawr 2023 i Ebrill 2023
    - Gloversure INV-24578(FR-10: DNS & Domain Support, FR-11: Page Support) £11.38
    - Meinciau – gwnaethpwyd siec newydd gan fod problem gyda'r llofnodion
    - Traed Bêch Twymyn – gwnaethpwyd siec newydd – problem gyda newid llythyren

Cynigiwyd y dylid talu'r uchod gan Bedwyr Fychan ac fe'i heiliwyd gan Iwan Pughe.

**Gohebiaeth:** Derbyniwyd cwyn am leoliadau'r biniau. Bydd y Clerc yn cysylltu eto i nodi nad cyfrifoldeb y Cyngor yw'r biniau erbyn hyn gan mai trigolion y pentref sy wedi eu gosod.

Nodwyd bod y Cyngor wedi gwneud ei orau glas sawl gwaith drosodd i geisio cael biniau gan Gyngor Sir Powys. Er bod Cyngor Sir Powys wedi gosod biniau mewn pentref cyfagos gan ddarparu gwasanaeth gwagio biniau gwrthod mae swyddogion y Cyngor Sir i ddarparu gwasanaeth tebyg i Gemaes gan beri cryn rwystredigaeth a pherygl i'r cyhoedd.

**19:501:** Hysbysfwrdd Llanwrin. Derbyniwyd amcanbris am wneud a gosod hysbysfwrdd derw gan Mr. Barnett. Penderfynwyd peidio â derbyn y cynnig achos y gost er bod canmol mawr ar ei waith.

Diolchwyd i William Owen am wirfoddoli i drwsio'r hen hysbysfwrdd. Cytunwyd hyn yn unfrydol.

**19:502: Adroddiadau'r Cynghorwyr**

Gwenfair Rhys-Davies Y Fforwm Cleifion

Nid oes cyfarfod y Fforwm Cleifion wedi bod. Mae Iechyd Bro Ddyfi wedi symud i'w syrjeri yn adeilad newydd yn Ysbyty Cymunedol Bro Ddyfi heddiw a bydd ar agor o Ddydd Mawrth nesaf i'r cyhoedd.

**19:503: Materion Ffyrdd a Phontydd:**

- Cyflwr ochr y ffordd yn wael rhwng Abercegir a Darowen, ger y llyn a Thŷ Cerrig. Gofynnir i rywun o Gyngor Sir Powys ddod i weld.
- Cysgodfa bysys Llanwrin Cysylltir â'r cyrff perthnasol ynghylch y cyflwr difrifol

**19:504: Unrhyw Fater Arall**

**Tipio anghyfreithlon** – Nodwyd bod problemau difrifol yn layby Dorcorslwyn, layby Mathafarn, Bwlch Glyn mynydd, rhwng Tal-y-wern a Phont Dolgadfan. Er bod arwyddion yn bygwth dirwyon nid oes neb yn cael cosb. Tynnir sylw'r Cynghorydd Sir, Elwyn Vaughan at y mater.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30.

Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Iau 25.5.23

**Ymddiriedolaeth y Melinau Gwynt 28.4.23**

- Nodwyd bod EDF wedi cydnabod cais yr Ymddiriedolwyr am fwy o arian a bydd y cwmni'n cysylltu erbyn yr wythnos nesaf
- Rhoddwyd siec newydd ar gyfer Parc Sisial Afon Cemaes gan mai Pwyllgor Pentref Cemaes sy'n gyfrifol.
- Rhoddwyd £500.00 i Gapel Sammah tuag at gostau adnewyddu wal y fynwent
- Rhoddwyd £200.00 i Gapel y Methodistiaid Cemaes tuag at dorri gwair.
- Cynigiwyd yr uchod gan William Owen ac fe'i heiliwyd gan Dafydd Evans.
- Datganodd Aled Griffiths ddiddordeb.